

# Cymeriadau Difyr



| | |
|---|---|
| Agwedd: | **Amser – o'r gloch.** |
| Adnoddau: | • Amrywiol glociau bach.<br>• Cardiau fflach – amrywiol amserau 'o'r gloch' – *gweler y ddogfen 'Amser ar y cloc – cardiau fflach'.*<br>• Adnoddau naturiol, e.e. cerrig, brigau, dail ayyb.<br>• Numicons a rhifau bach.<br><br>**<u>Adnodd digidol:</u>**<br>Cloc analog rhyngweithiol – e.e. https://ieithgar.cymru/adnoddau/tic-toc-cloc. |
| Camau: | **<u>Cam 1: Cyflwyniad</u>**<br>Trafod trefn y dydd gyda'r dysgwyr.<br>Gofyn cwestiynau fel:<br>• Beth rydych chi'n ei wneud yn y bore/prynhawn/nos?<br>• Beth rydych chi'n ei wneud yn gyntaf/ail/drydydd yn y bore?<br>Cyflwyno'r cloc rhyngweithiol i'r dysgwyr – tynnu sylw at bob rhif ac yna'r bysedd mawr/bach. Esbonio mai'r bys mawr yw 'o'r gloch' a'r rhif sy'n nodi'r awr.<br><br>**<u>Cam 2: Sgiliau gwrando</u>**<br>Rhoi cloc i bob dysgwr yn y grŵp. Gofyn iddynt ddarllen yr amser sydd arno, yna'r athro/ymarferydd i ddweud yr amser. Bydd y dysgwr sydd â'r cloc sy'n dweud yr amser hwnnw yn eistedd.<br><br>**<u>Cam 3: Labelu cloc</u>**<br>Amlinelliad o gloc – y dysgwyr i osod numicon a rhifau yn y mannau cywir er mwyn ei labelu.<br><br>**<u>Cam 4: Paru</u>**<br>Yr athro/ymarferydd i ddweud amser, a'r dysgwyr i chwilio am lun y cloc sy'n dweud yr amser hwnnw.<br><br>**<u>Cam 5: Trefnu clociau</u>**<br>Cuddio clociau yn yr ardal allanol/fewnol. Y dysgwyr i chwilio amdanynt ac yna eu gosod mewn trefn amser o 1 o'r gloch i 12 o'r gloch.<br><br>**<u>Cam 6: Ardal allanol</u>**<br>Y dysgwyr i greu cloc mawr yn yr ardal allanol gan ddefnyddio adnoddau naturiol, e.e. cerrig, brigau, dail. |






| | |
|---|---|
| | **<u>Cam 7: Cardiau fflach</u>**<br>Tynnu cardiau fflach amser o'r sach a gofyn i'r dysgwyr nodi amrywiol amseroedd ar y cloc. |
| Cwestiynu: | • Faint o'r gloch yw hi?<br>• I ble mae'r bys mawr/bach yn pwyntio?<br>• Fedri di ddangos ______ o'r gloch? |
| Beth nesaf? | • Ymarfer dweud brawddeg fel 'Mae'r ysgol yn dechrau am 9 o'r gloch', neu 'Rwy'n bywta swper am 6 o'r gloch'.<br>• Dysgu sut i ddarllen amser 'hanner awr wedi...' |

